



EMYR YN ENNILL



Emyr Lewis o Graig-cefn-parc enillodd y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyma'r ail dro iddo gyflawni'r gamp, y tro cyntaf yn 1994 yng Nghastell-nedd.

Llinellau oedd y testun a lluniodd awdl o gerddi ar wahanol fathau o linellau, yn olrhain taith freuddwydiol anghysurus ar drên cyn dychwelyd i normalrwydd hyfrydwch bore.

Bu Emyr yn Athro'r gyfraith yn Aberystwyth.

Llun: BBC Cymru

DYSGWR Y FLWYDDYN 2026

Jonathan Davies o Gasllwchwr sydd wedi ennill cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn 2026.

Cychwynnodd Jonathan Davies ger Abertawe, ddysgu Cymraeg er mwyn ailgysylltu â'i dreftadaeth a'i hunaniaeth ar ôl byw yn Llundain.

Yn 2020 dechreuodd ddysgu Cymraeg, gan wneud cynnydd cyflym a dod yn siaradwr Cymraeg hyderus.

Aeth ymlaen i ddechrau PhD ym maes leithyddiaeth ac Addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, gan ganolbwyntio ar hygyrchedd mewn addysg.

Mae'n hwyluso grŵp dysgwyr ifanc, yn dysgu ysgrifennu creadigol, ac yn sylfaenydd podlediad Ymchwil ar y Gweill.



Côr Tŷ Tawe yw unig gôr pedwar llais Cymraeg Abertawe. Mae croeso i aelodau newydd sy'n

- * Hoffi Canu
- * Siarad Cymraeg
- * Dysgu Cymraeg (lefel Canolradd +)

Cyfle da i fwynhau cwmni Cymraeg a dysgu a chanu caneuon Cymraeg

Arweinydd:
Edward-Rhys Harry
Cyfeilydd: Fiona Gannon

Am ragor o fanylion cysylltwch â'r cadeirydd,
Carey Thomas : Careythomas2@aol.com

Ailgychwyn
Nos Lun
Medi 7,
7 tan 9
yn Nhŷ Tawe,
Stryd Christina,
Abertawe

CYFLWYNO EIN PRIF SWYDDOGION NEWYDD - CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Pleser yw cyflwyno ein tîm o swyddogion newydd. Mae Hannah Thomas a Maiwenn Watson yn ymgymryd â rolau prif swyddogion ac yn cael eu cynorthwyo gan ein 5 uwch swyddog, sef Sally Corbett, Rhys Francis, Millie Frovine, Lily Honeyman ac Erin Thomas.



RAS HWYLIO - CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Bu Sally Corbett yn rhan o ras hwylio 'The Tall Ships Race' yn ystod mis Gorffennaf, gan hwylio o Antwerp i Stavanger. Tipyn o brofiad iddi ac mae hi eisoes yn edrych mlaen at ras Haf 2027!



CÔR CENEDLAETHOL A THEATR IEUENCTID CENEDLAETHOL -CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau i Maiwenn Watson o fll3, ac Ifan Saunders oedd ym ml 13 y llynedd am berfformio gyda Côr Cenedlaethol dros wyliau'r haf. Bu sawl cyngerdd ledled y wlad. Llongyfarchiadau i Maiwenn a fu'n rhan o'r Theatr ieuenctid Cenedlaethol yn ogystal. Arbennig!



YMLAEN I GOLEG YR IESU, RHYDYCHEN! -CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Ym mhen rhai wythnosau bydd Ryder Young yn dechrau astudio Mathemateg yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen.

Mae Ryder yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Tirdeunaw. Ym mis Rhagfyr fo oedd Enillydd y Wobr ar gyfer Cyrhaeddiad Academaidd Eithriadol Safon Uwch yn dilyn ei ganlyniadau ar ddiwedd blwyddyn 13. Dewisiodd Ryder wneud blwyddyn ychwanegol gyda ni er mwyn gallu astudio cymwysterau ychwanegol. Erbyn hyn mae ganddo 5 cymhwyster safon Uwch sef Cemeg A*, Mathemateg A*, Mathemateg Ychwanegol A*, Ffiseg A, Hanes A, ac un cymhwyster 1 UG, sef Gwleidyddiaeth A.

Pob dymuniad da i ti Ryder, rydyn ni'n anhygoel o falch o dy lwyddiant di.



Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Medi.

Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Willa. Pliis danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Hydref erbyn Medi 28ain trwy ebostio Anyis at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Willa.

NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

NOSON PAINT ALONG

Ymunwch â ni am noson hwyliog a chreadigol o beintio gyda'r artist Rachel Rasmussen!

Rhowch gynnig ar beintio 'Blodau Haul Rhosili'.

Addas i siaradwyr newydd o bob lefel.

£30 y pen

Yr holl offer a deunydd wedi'u darparu

Peintiwch fersiwn eich hun o 'Flodau Haul Rhosili' i gadw

Does dim angen unrhyw brofiad blaenorol.



NOSON PAINT ALONG

PAINT LOUD

Dysgwch sut i beintio 'Blodau Haul Rhosili' yn y noson hamddenol yma gyda'r artist Rachel Rasmussen. Nid oes angen unrhyw brofiad flaenorol.

Learn how to paint 'Rhosili Sunflowers' in this step-by-step tutorial! Join us for a fun evening - no previous experience necessary!

23.09.26
19:00
Tŷ Tawe, SA1 4EW

£30

ARCHEBU/BOOK
MENTERABERTAWE.ORG/ARCHEBU

TEITHIAU CERDDED

Mae ein teithiau cerdded ar y cyd gyda Menter Iaith Cwm Gwendraeth Elli yn parhau dros y deufis nesaf, gyda dwy daith arall wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnosau nesaf.

18.09 - Coedwig Penllergaer

02.10 - Cronfa Ddŵr Dyffryn y Swisdir

Croeso i siaradwyr newydd o bob lefel. Rhowch wybod i ni eich bod chi'n dod trwy menterabertawe.org/archebu



TEITHIAU CERDDED

Tawe Gwendraeth Elli

TAITH 3: COEDWIG PENLLERGAER
DYDDIAD: 18.09.26
AMSER: 11YB
PARCIO: COEDWIG PENLLERGAER, SA4 9GS
DAN ARWEINIAD: MENTER ABERTAWE

TAITH 4: CRONFA DDŴR DYFFRYN Y SWISDIR
DYDDIAD: 02.10.26
AMSER: 11YB
PARCIO: DYFFRYN Y SWISDIR, SA14 8BT
DAN ARWEINIAD: MENTER CWM GE

MENTERABERTAWE.ORG/ARCHEBU

MWY O WYBODAETH: LLION@MCGE.ORG.UK

SESIWN WERIN

Ail nos Wener y mis.

20:00 yn Nhŷ Tawe - croeso i bawb!



MENTER IAITH ABERTAWE YN CYFLUTNO


SESIWN WERIN Tŷ Tawe

AIL NOS WENER POB MIS.
SECOND FRIDAY OF THE MONTH.
20:00-HWYR/LATE
Tŷ Tawe, ABERTAWE, SA1 4EW

NOSON GWIS

Nos Fawrth olaf pob mis am 19:00 yn Nhŷ Tawe.

Croeso i bawb - cwis dwyieithog!



NOSON GWIS

Ymunwch â ni Join Us

Ymunwch gyda ni am noson gwis. Bach o sbort a chyfle i brofi eich gwybodaeth! Croeso i bawb! Join us for our monthly quiz night! Test your knowledge, have some fun and practise your Welsh.

Tŷ Tawe, STRYD CHRISTINA, SA1 4EW

www.menterabertawe.org

NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

SESIYNAU DEWCH I GANU

Ymunwch â'r cerddor Delyth Jenkins i ddysgu Cymraeg syml trwy ganu mewn amgylchedd cefnogol ac hamddenol.

Yn cychwyn ar ddydd Mawrth y 1af Hydref, bydd sesiwn BOB dydd Mawrth am 11:00 yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Does dim angen unrhyw brofiad na gallu.

CLWB GWERIN

Diolch i gefnogaeth gan gronfa Tradd Tŷ Cerdd, rydym wrth ein boddau i rannu bod ein sesiynau Clwb Gwerin yn dychwelyd fel prosiect trwy gydol y flwyddyn.

Wedi eu harwain gan y tiwtoriaid Angharad Jenkins, Rhodri Davies, ac Ian 'Tich' Thomas - mae'r sesiynau yma yn weithdai anffurfiol sy'n addas ar gyfer pob oedran hyd at 16. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol, a bydd offerynnau ar gael i fenthyg!

Am ddim!

Ail brynhawn Sul pob mis am 14:00, yn cychwyn 13/9 yn Nhŷ Tawe




DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

- 17.9 - Liam J. Edwards + Popeth (The Bunkhouse)
- 25.9 - Casi + The Gentle Good (Theatr Volcano, Abertawe)
- 01.10 - Gig Gym Gym 2026 (The Bunkhouse)
- 03.10 - Ryland Teifi (Tŷ Tawe)
- 09.10 - Dafydd Owain: Ymarfer Byw (Theatr Y Grand)
- 15-16.10 - Gŵyl Dros y Bont 2026

Tocynnau:

www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe



DAFYDD OWAIN

THEATR GRAND
ABERTAWE
9 HYDREF

YMARFER BYW

CYFLWYNIR GAN
MENTER IAITH ABERTAWE

Tocynnau grandabertawe.co.uk





GŴYL DROS Y BONT 2026

**GLEIF HARPWOOD &
GERAINT CYNAN
GWILYM BOWEN RHYS
BWCA • CHWAER
RHIANNON O'CONNOR**

**CANOLFAN GWILI CENTRE +
CLWB RYGBI PONTARDDULAIS**

**NOS IAU 15.10.26
NOS WENER 16.10.26**

**TOCYNNAU £12 Y NOSON
£18 AM Y DDWY**